



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar
Addysg Grefyddol (CYSAG)**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd,
Gwerthoedd a Moeseg (CYS)**

Adroddiad Blynyddol 2024-25

(This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg)

CYNNWYS	TUDALEN
NEGES GAN GADEIRYDD CYSAG/CYS PEN-Y-BONT AR OGWR	3
ADRAN 1: GWYBODAETH AM Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOL AR ADDYSG GREFYDDOL (AG)/Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOL AR GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM)	
1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG/CYS	4
1.2 Cyfansoddiad CYSAG/CYS	4
1.3 Aelodaeth CYSAG/CYS	4
1.4 Swyddogaethau CYSAG/CYS	4
1.5 Cofnodion Cyfarfodydd	5
1.6 Dosbarthu'r Adroddiad	5

ADRAN 2: CYNGOR A RODDIR GAN CYSAG/CYS AR ADDYSG GREFYDDOL (AG), ASTUDIAETHAU GREFYDDOL (AC) A CHREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM)	
2.1 Y Maes Llafur Cytunedig Lleol	6
2.2 Safonau Addysg Grefyddol (AG), Astudiaethau Crefyddol (AC), a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)	6
2.3 Cwricwlwm	7
2.4 Dysgu Proffesiynol ac Adnoddau i Ymarferwyr	8
ADRAN 3: CYNGOR AR WEITHRED DDYDDIOL O ADDOLI AR Y CYD (DACW)	
3.1 Adroddiadau Arolygu Ysgolion	10
3.2 Ceisiadau am Benderfyniadau	10
3.3 Ymweliadau ag Ysgolion	11
ADRAN 4: CRYNODEB O FEYSYDD ERAILL	
4.1 CCYSAGauC	11
4.2 Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG)	11
4.3 Hyfforddi Aelodau CYSAG/CYS	11
4.4 Cynrychiolaeth leuenctid ar gyfer CGM, AG, AC a DACW	12

ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG/CYS 2024-2025	13
ATODIAD 2: AMSERLEN AC AGENDA CYFARFODYDD	14
ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD	18
ATODIAD 4: CYFANSODDIAD CYSAG/CYS PEN-Y-BONT AR OGWR	19
ATODIAD 5: DYSGU PROFFESIYNOL, ADNODDAU A DEUNYDDIAU A RENNIR AG YMARFERWYR	23

NEGES GAN GADEIRYDD CYSAG/CYS PEN-Y-BONT AR OGWR 2023-2024

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm Gymru yn mynd rhagddo ar garlam wrth iddo ddechrau cael ei gymhwyso i fyfyrwyr Blwyddyn 10. Mae hyn yn golygu wrth gwrs, am y tro cyntaf, yr effeithir ar fyfyrwyr a fydd yn sefyll arholiadau cyhoeddus mewn AG/AC/CGM.

Felly, bu'n bwysicach nag erioed bod CYSAG / CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gefnogi athrawon y pynciau hyn yn ein hysgolion uwchradd, ym mha bynnag ffordd y gall, yn ogystal â pharhau i gefnogi athrawon mewn lleoliadau addysgol eraill.

Mae'r angen i fyfyrwyr o bob oed feddu ar ddealltwriaeth, yn enwedig o grefydd, gwerthoedd a moeseg, yn y byd heddiw yn bwysicach nawr nag y bu ers amser maith. Mewn byd sy'n cael ei hollti mewn cynifer o ffyrdd, rydym yn edrych at ein pobl ifanc gyda gobaith am y dyfodol ac felly mae'n hanfodol bod pobl ifanc heddiw yn cael eu dysgu i'r safon uchaf am faterion a fydd yn dylanwadu ar eu bywydau wrth iddynt dyfu ac aeddfedu.

Yn ei adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus*, sylfaen y Cwricwlwm i Gymru, mae'r Athro Graham Donaldson yn ysgrifennu am bedwar diben y cwricwlwm newydd ac yn benodol am ei obaith y bydd pob disgybl yn dod yn *ddinasyddion moesegol gwybodus sy'n barod i ddod yn ddinasyddion Cymru a'r byd ond sydd hefyd yn unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd diogel ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol* fel eu bod yn dod yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Felly, mae cyfrifoldeb trwm ar y rhai sy'n addysgu AG/AC/CGM yn ein hysgolion ac sydd angen yr holl gefnogaeth y gallant ei chael i'w galluogi i gyflawni'r rôl bwysig hon. Dros y flwyddyn ddiwethaf, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymdrechu i roi'r cymorth hwnnw i'n hathrawon. Gan weithio mewn partneriaeth â'n gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, Consortiwm Canolbarth y De, credwn ein bod wedi gallu gwneud hyn. Wedi'i annog gan CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr (a CYSAG/CYS eraill), mae CSC wedi cynnal llawer o raglenni sydd wedi darparu cefnogaeth ymarferol i'n hathrawon ac mae CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiolchgar am waith a chefnogaeth ddiflino cynghorydd proffesiynol CCD ar gyfer AG/AC/CGM. Fel CYSAG/CYS rydym yn ffodus i gael ei chefnogaeth yn ein gwaith wrth i ni geisio cefnogi ein holl ysgolion a'u hathrawon yn y byd addysg Gymraeg sy'n newid yn barhaus.

Mae CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn aelod gweithgar o CCYSAGauC ac unwaith eto mae'n ddiolchgar i Swyddogion y corff hwnnw am y gefnogaeth barhaus y mae'n ei rhoi. Roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn falch o gynnal cyfarfod tymor y Gwanwyn CCYSAGauC, er yn rhithiol, ac mae'n ddiolchgar i'r Cyfarwyddwr Addysg am yr anerchiad agoriadol a roddodd yn y cyfarfod hwnnw, anerchiad a ddangosodd yn glir y gefnogaeth a roddir i athrawon ym Mhen-y-bont ar Ogwr drwy waith ei CYSAG/CYS.

Fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, mae llawer o newidiadau'n digwydd ym myd addysg Cymru. Gyda chymwysterau newydd ar y gorwel, bydd angen cefnogaeth yn fwy nag erioed ar ein hathrawon. Mae CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn ymrwmo i barhau i ddarparu'r gefnogaeth honno ar y lefel uchaf, felly gall athrawon ac eraill a fydd yn gyfrifol am weithredu'r nifer o newidiadau dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf fod yn sicr o gefnogaeth barhaus CYSAG/CYS.

Unwaith eto eleni, hoffai CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr ddiolch i bawb sy'n ymwneud â chynllunio ac addysgu AG/AC/CGM am eu gwaith rhagorol, gan roi'r gofal, y gefnogaeth a'r ymroddiad i ddysgwyr sir Pen-y-bont ar Ogwr. Fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch hefyd i aelodau CYSAG/CYS am eu hymrwymiad

parhaus, eu presenoldeb, eu cyfranogiad a'u cyfraniadau er budd dysgu CGM/AG/AC a DACW yn yr awdurdod lleol.

Mae CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn croesawu gohebiaeth drwy'r clerc: edsu@bridgend.gov.uk

ADRAN 1: GWYBODAETH AM Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (AG)/Y CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM)

1.1 Dyletswydd i sefydlu CYSAG/CYS

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ffurfio Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn eu hardal leol. Bydd CYSAG a CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn rhannu aelodaeth ac yn cyfarfod fel un corff sydd ag un cyfansoddiad/Cylch Gorchwyl.

1.2 Cyfansoddiad CYSAG/CYS

Pennir aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) gan Ddeddfau Addysg 1944 a 1993, a Deddf Diwygio Addysg 1988. Pennir aelodaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu 2021 yng Nghymru. Mae gan CYSAG/CYS dri grŵp cyfansoddol; mae gan bob grŵp hawl i un bleidlais:

- bydd aelodau a benodir i'r grŵp i gynrychioli crefydd, enwad neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol, i'r graddau y mae hynny'n gyson â chyflawni swyddogaethau'r grŵp yn effeithlon, yn adlewyrchu'n fras gryfder cymesur y grefydd, yr enwad neu'r argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol hwnnw yn yr ardal
- cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon/ymarferwyr
- yr awdurdod lleol.

1.3 Aelodaeth CYSAG/CYS

Rhestrir yr aelodau sy'n cynrychioli pob un o'r grwpiau hyn ar gyfer 2023-2024 yn Atodiad 1.

1.4 SWYDDOGAETHAU CYSAG/CYS

Prif swyddogaeth CYSAG/CYS yw:

- cynghori'r Awdurdod Lleol ar addysg grefyddol (AG), crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM), astudiaethau crefyddol (AC), a'r weithred ddyddiol o addoli ar y cyd (DACW)

- argymhell bod yr awdurdod lleol yn adolygu'r maes llafur cytunedig drwy gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig
- ystyried ceisiadau gan ysgolion ar gyfer penderfyniadau (i'w heithrio o'r gofyniad i'r addoli fod yn "gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol cyffredinol")
- cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith
- chwarae rhan yn y weithdrefn gwyno statudol leol pan gyfeirir achosion ato mewn cysylltiad ag AG, CGM, AG neu DACW.

Gallai cyngor i'r Awdurdod Lleol ymwneud ag:

- addysgeg
- y dewis o adnoddau addysgu
- y ddarpariaeth dysgu proffesiynol
- unrhyw fater arall sy'n ymwneud ag AG, AC, CGM a DACW y mae CYSAG/CYS yn ei ystyried yn briodol.

1.5 COFNODION CYFARFODYDD

Cynhaliwyd y tri chyfarfod wyneb yn wyneb yn ystod 2024-2025:

- Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2024 am 3:30pm
- Dydd Mawrth 25 Mawrth 2025 am 3:30pm
- Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2025 am 3:30pm.

Mae cofnod o'r prif eitemau agenda a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd ar gael yn Atodiad 2.

1.6 DOSBARTHU'R ADRODDIAD

Dosbarthwyd copïau o'r adroddiad hwn i'r cyrff/sefydliadau a restrir yn Atodiad 3.

ADRAN 2: CYNGOR A RODDIR GAN CYSAG/CYS AR ADDYSG GREFYDDOL (AG), ASTUDIAETHAU GREFYDDOL (AC) A CHREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG (CGM)

2.1 Y Maes Llafur Cytunedig Lleol

Ym mis Chwefror 2022, ailfabwysiadodd yr awdurdod lleol ei faes llafur etifeddiaeth cytunedig ar gyfer AG. Yn 2022, cytunodd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ar faes llafur newydd ar gyfer CGM o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae copïau o'r ddau faes llafur cytunedig ar gael ar wefan y cyngor, gwefan Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De ('CCD' o fis Medi 2025) a chan Glerc CYSAG/CYS.

2.2 Safonau Addysg Grefyddol (AG), Astudiaethau Crefyddol (AC), a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae CYSAG/CYS yn darparu cyngor i'r Awdurdod Lleol ar safonau AG/AC/CGM. Mae CYSAG/CYS wedi archwilio amrywiaeth o ffyrdd o ystyried safonau o ran CGM:

- Gwahoddir ymarferwyr i rannu eu harferion da ag aelodau CYSAG/CYS yn y cyfarfodydd tymhorol. Mae CYSAG/CYS yn annog cydweithrediad rhwng ysgolion er mwyn nodi a chefnogi arferion da. Mae fforwm leuenctid ar CGM a DACW GACCCD/y Gwasanaeth Cyflawni Addysg sydd newydd ei sefydlu yn annog cydweithredu pellach, rhannu arferion da a gwrandao ar lais dysgwyr er mwyn llywio ymarferwyr, ysgolion/lleoliadau a CYSAG/CYS.
- Mae CYSAG/CYS yn adolygu adroddiadau arolygu Estyn er mwyn nodi a rhannu arferion effeithiol a chefnogi ysgolion gydag AG, CGM, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (YMCD) a'r weithred ddyddiol o addoli ar y cyd (DACW). Yn 2024-25, ystyriodd CYSAG/CYS ganfyddiadau arolygu pedwar lleoliad meithrin nas cynhelir, 15 ysgol gynradd, pedwar ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig. Gwnaed sylwadau cadarnhaol gan Estyn sy'n berthnasol i AG a CGM ynghyd â darparu YMCD a DACW. Mae CYSAG/CYS wedi codi pryderon bod newidiadau i adroddiadau Estyn wedi ei gwneud yn anoddach i CYSAG/CYS fonitro safonau AG/CGM fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth – sef un o'r swyddogaethau sy'n ofynnol gan CYSAG/CYS. Codwyd y pryderon hyn gyda CCYSAGauC, Estyn, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau'n parhau o ran monitro darpariaeth y cwricwlwm, addysgeg a safonau yn y meysydd hyn.
- Trafododd CYSAG/CYA nifer y ceisiadau a chanlyniadau arholiadau AC ar gyfer ysgolion yn yr awdurdod lleol, yn unol â chynghor CCYSAGauC. Trafododd CYSAG/CYA ddata Alps ar gyfer Astudiaethau Crefyddol ar gyfer yr awdurdod lleol ar gyfer cymwysterau CBAC ar gyfer 2023-2024. Trafodwyd tueddiadau a chodwyd cwestiynau yn canolbwyntio ar nifer y ceisiadau a'r canlyniadau. Mae'r data'n dangos gostyngiad mewn ceisiadau Safon Uwch. Mynegodd ymarferwyr fod CGM yn fwy academaidd o'i gymharu â throsedddeg/cymdeithaseg/seicoleg y mae myfyrwyr Safon Uwch i'w gweld yn eu dewis yn lle. Mae cael gwared ar y cwrs byr TGAU wedi cyfrannu at y mater hwn, ac ni fydd hyn yn cael ei adfer. Nid yw data ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn CBAC ar gael i'r awdurdod lleol e.e. Agored Cymru 'Archwilio Byd-olygon' neu Lefel 2 NCFE 'Cydraddoldeb ac Amrywiaeth'. Nid yw manylion ynghylch darpariaeth heb arholiad a safonau ar gyfer AG orfodol ar gyfer 2024-2025 ar gael, heblaw am gyfeirio at adroddiadau Estyn. Mae golwg gynhwysfawr ar gyfer CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i llesteirio gan y rhwystrau hyn.

Mae CYSAG/CYS yn parhau i argymhell yr adnoddau canlynol sy'n ymwneud â safonau ar gyfer ymarferwyr, penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion:

Cyhoeddiadau [Estyn](#):

- [Sut rydym yn arolygu ar gyfer arolygiadau o 2023](#)
- [Beth rydym yn ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UC'Dau – ar gyfer arolygiadau o 2023](#)
- [Adroddiad Blynyddol 2023-2024](#)
- [Adnoddau Gwella Estyn](#).

Ar gyfer darpariaeth 'AG' i ddysgwyr (blwyddyn 10 ac uwch ym mlwyddyn academiaidd 2024-2025) sy'n astudio'r cwricwlwm sydd ar fin bod yn un 'etifeddol':

- [Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd \(Estyn, Mehefin 2013\)](#)
- [Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 \(Estyn, Mehefin 2018\)](#)
- [Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru](#).

2.3 Cwricwlwm

Cwricwlwm i Gymru:

Mae aelodau CYSAG/CYS wedi cael diweddariadau tymhorol a chynghor manwl gan Gynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/CGM/AC a CYSAG/CYS ynghylch datblygiadau'r cwricwlwm. Mae CYSAG/CYS wedi cynghori y dylid sicrhau bod pob ysgol yn ymwybodol o'r gofyniad i roi sylw i faes llafur cytunedig lleol Cwricwlwm i Gymru (2022) a'r canllawiau CGM statudol ar Hwb. Mae CYSAG/CYS wedi cynghori y dylai pob ysgol gael ei hatgoffa nad oes gan rieni hawl i dynnu'n ôl o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae GACCCD wedi llunio adnoddau i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol o ran CGM yn y Cwricwlwm i Gymru ([dolen](#)).

Mae CYSAG/CYS wedi trafod y newidiadau i CGM fel gofyniad gorfodol i'r Cwricwlwm i Gymru ac sy'n orfodol i bob dysgwr rhwng tair ac 16 oed, wrth i'r cwricwlwm hwn gael ei gyflwyno.

Rhoddodd CYSAG/CYS gyngor ar bwysigrwydd CGM 'gwrthrychol, beirniadol a phlwrailaethol', yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae GACCCD wedi rhoi cyngor ar hyn i Brif Bartner Gwella yr awdurdod lleol, Partneriaid Gwella a'r ymarferwyr a'r llywodraethwyr hynny sydd wedi ymgysylltu â dysgu proffesiynol, cyfarfodydd rhwydwaith ac ardaloedd cymunedol ar wefan GACCCD.

Mae CYSAG/CYS wedi paratoi canllawiau ar siaradwyr gwadd a darparwyr allanol, er mwyn cefnogi penaethiaid ac ymarferwyr CGM, yn yr awdurdod lleol.

Mae CYSAG/CYS wedi trafod y TGAU AC newydd (ar gyfer addysgu o fis Medi 2025) a chymwysterau sgiliau ehangach (ar gyfer addysgu o fis Medi 2027). Mynegwyd pryderon ynghylch sut y byddai'r cymwysterau newydd yn diwallu anghenion pob dysgwr ac yn unol â chwricwlwm CGM Cwricwlwm i Gymru. Mynegwyd barn, ynghyd ag adborth ymarferwyr. Cefnogodd GACCCD ysgolion gyda chynghor

a hwyluso cyfarfod rhwydwaith ar gyfer ymarferwyr TGAU uwchradd ar gyfer y TGAU newydd ar 23 Mehefin 2025. O'r 11 o ysgolion a fynychodd, roedd tair ohonynt o Ben-y-bont ar Ogwr.

Trafododd CYSAG/CYS 'werthoedd' a phwysigrwydd i ddysgwyr archwilio cwricwlwm sy'n gyfoethog o ran gwerthoedd o fewn pwnc academiaidd gorfodol CGM yn ogystal ag ethos ysgol gyfan, gan ddilyn themâu a sylwadau cadarnhaol yn adroddiadau Arolygu Estyn ar gyfer ysgolion/lleoliadau o fewn yr awdurdod lleol. Ystyriaeth gychwynnol o'r cysylltiadau rhwng addysg gwerthoedd ac ymddygiad dysgwyr.

Cwricwlwm AG/AC ar gyfer Blwyddyn 10i Flwyddyn 13

Cadarnhaodd CYSAG/CYS y cwricwlwm a'r hawl i dynnu gofynion yn ôl ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 ac uwch sy'n cael AG yn unol â'r maes llafur etifeddiaeth cytunedig. Mae'r hawl i dynnu'n ôl yn dal ar waith ar gyfer y dysgwyr hyn. Mae CCYSAGauC/CYSAG/CYS wedi dosbarthu canllawiau CCYSAGauC ar yr hawl hon i bob ysgol/lleoliad: [Rheoli'r Hawl i Dynnu'n Ôl o Addysg Grefyddol, 2017.](#)

Trafododd CYSAG/CYS dueddiadau cenedlaethol mewn cofrestriadau ar gyfer TGAU a Safon Uwch ers 2017. Rhannwyd pryderon ynghylch gostyngiad mewn cofrestriadau â CCYSAGauC a PYCAG. Mynegwyd pryderon hefyd am hygyrchedd a phriodoldeb y cymhwyster AC presennol. Trafododd CYSAG/CYS ostyngiadau diweddar yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer TGAU AC, yr amser a ddyrennir ar gyfer cymwysterau TGAU mewn ysgolion a'r brwdfrydedd dros ddewis cwrs AC byr. Cynghorodd CYSAG/CYS ymarferwyr i ymgysylltu â grwpiau cynghori CBAC wrth drafod y cymhwyster newydd ar gyfer 2025, gan eu hatgoffa o'u cyfleoedd i fynegi eu barn i swyddog pwnc CBAC a Chymwysterau Cymru.

2.4 Dysgu proffesiynol ac adnoddau i ymarferwyr

Mae CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i ddarparu deunyddiau ategol sy'n gysylltiedig â maes llafur cytunedig yr awdurdod lleol. Bwriedir i'r rhain fod yn ddogfennau, yn ddeunyddiau ac yn adnoddau 'byw' sy'n adlewyrchu datblygiad y Cwricwlwm i Gymru.

Mae CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr wedi llunio a rhannu dogfen 'Canllawiau i Siaradwyr Gwadd a Phen-y-bont ar Ogwr' ar gyfer ysgolion/lleoliadau. Roedd canllawiau a chynghor pwrpasol pellach ar gael gan CYSAG/CYS a GACCCD ar gyfer ysgolion.

Mae CYSAG/CYS yn parhau i gydnabod a chefnogi'r ystod eang o adnoddau dysgu proffesiynol a'r cyfleoedd i rannu y mae CBAC, CCYSAGauC a GACCCD yn eu darparu ar gyfer ymarferwyr AG, AC a CGM, ac mae wedi annog ysgolion i ymgysylltu â'r cynnig hwn ac i gael gafael arno.

Mae GACCCD, sy'n gweithredu fel darparwr rhanbarthol gwasanaethau gwella ysgolion a chymorth dysgu proffesiynol i ysgolion ac ymarferwyr, wedi darparu ystod eang o raglenni, deunyddiau a dulliau dysgu proffesiynol a rennir ag ysgolion yn yr awdurdod lleol. Mae GACCCD wedi rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr holl ddysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r pwnc, cyfarfodydd rhwydwaith a dolenni i adnoddau â CYSAG/CYS drwy bapurau briffio a thrafodaeth ym mhob cyfarfod.

Mae GACCCD yn darparu cyfleoedd rhwydweithio a rhannu tymhorol i ymarferwyr uwchradd a chynradd, dan arweiniad ymarferwyr mewn ysgolion a staff GACCCD. Roedd cyfleoedd rhwydweithio eilaidd yn canolbwyntio ar rannu arferion sy'n gysylltiedig â safonau ar lefel TGAU a Safon Uwch, cwrs

‘Archwilio Bydolygon’ Agored Cymru, CGM ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau, a datblygu dolenni a chysylltiadau â phynciau eraill. Yn y cyfarfodydd hyn, mae ysgolion wedi rhannu eu dulliau o ddylunio'r cwricwlwm, cynnydd a dulliau o gynllunio ar gyfer y cymhwyster TGAU CGM newydd, a fydd yn cael ei addysgu gyntaf o fis Medi 2025. Canolbwyntiodd y prif gyfleoedd rhwydwaith ar ddylunio cwricwlwm CGM a'r dyniaethau, rhannu arferion da a chydweithredu wrth ddatblygu adnoddau. Mae cyfarfodydd tymhorol wedi canolbwyntio ar ddylunio'r cwricwlwm dyniaethau a CGM, rhannu arferion da a chydweithredu wrth ddatblygu adnoddau.

Mae GACCCD yn darparu cymorth pwrpasol am ddim i unrhyw ysgolion awdurdod lleol ar gais. Darparwyd cymorth CGM pwrpasol i 31 o ysgolion/lleoliadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2024-25. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys dau gymorth clwstwr. Cafodd rhai o'r ysgolion hyn gymorth ar fwy nag un achlysur, gyda sawl ymweliad/trafodaeth. Roedd y prif feysydd cymorth yn cynnwys:

- cynllunio'r cwricwlwm o ran CGM
- cynllunio unedau gwaith ar gyfer CMG/y dyniaethau
- gweithio mewn clystyrau er mwyn cynllunio ar gyfer CMG/y dyniaethau
- arweinyddiaeth CGM/AC, gan gynnwys hunanwerthuso
- y weithred ddyddiol o addoli ar y cyd (DACW)
- addysgeg
- materion sensitif a dadleuol o fewn y dyniaethau/CGM.

Mae GACCCD wedi cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau, prosiectau a rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â CGM/AC/AG yn rhan o gynnis dysgu proffesiynol Dyniaethau GACCCD. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael i bob ymarferydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gellir gweld enghreifftiau o'r amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau dysgu proffesiynol y mae GACCCD a CYSAG/CYS wedi eu datblygu a'u rhannu er mwyn cefnogi ysgolion yn Atodiad 6.

Ymrwymiad awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr â data dysgu proffesiynol y dyniaethau/CGM 2024-2025:

Cyfle Dysgu Proffesiynol	Cyfanswm yr Ymrwymadau	Nifer yr Ysgolion
Dyniaethau (gan gynnwys DP CGM)	50	28
Cyfarfod Rhwydwaith gan gynnwys pob CGM	27	17
Cyfarfod Rhwydwaith ac eithrio CGM	17	13
Cyfarfodydd Rhwydwaith AC Uwchradd	10	4
Cyfarfodydd Rhwydwaith Cynradd y Dyniaethau (gan gynnwys CGM)	3	3

Crynodeb o ddata dysgu proffesiynol y dyniaethau/CGM GACCCD ar gyfer data'r rhanbarth:

Cyfle DP	Cyfanswm yr Ymrwymadau	Ymrwymadau ag Ysgolion CCD	Nifer yr Ysgolion CCD a Ymrwymwyd
Dyniaethau (gan gynnwys DP CGM)	233	224	121
Cyfarfod Rhwydwaith gan gynnwys pob CGM	83	82	59
Cyfarfod Rhwydwaith ac eithrio CGM	56	55	43
Cyfarfodydd Rhwydwaith AC Uwchradd	27	27	16
Cyfarfodydd Rhwydwaith Cynradd y Dyniaethau	22	21	20

ADRAN 3: CYNGOR AR Y WEITHRED DDYDDIOL O ADDOLI AR Y CYD (DACW)

Mae Cylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig yn nodi y dylai'r Awdurdod Addysg Lleol weithio gyda CYSAG/CYS er mwyn monitro darpariaeth ar gyfer y weithred o addoli ar y cyd (DACW) ac y dylai ystyried ag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Trafododd CYSAG/CYS gyngor ar DACW a gafodd wybodaeth am drafodaethau yn CCYSAGauC a PYCAG ynghylch ymholiadau am yr hawl i dynnu'n ôl. Mae Cyngorydd Cyswllt GACCCD wedi rhoi cyngor i ysgolion unigol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Trafododd CYSAG/CYS ymholiadau a phryderon rhanddeiliaid ynghylch y mater hwn.

Cafodd CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr ymholiad ynghylch DACCW. Cadarnhawyd bod yn rhaid i unrhyw blentyn dros bump oed gymryd rhan yn y weithred ddyddiol o addoli ar y cyd. Y cwestiwn a godwyd oedd gofyn a oes gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol (ADY), nad oes ganddo oedran gwybyddol o bump, a yw hyn yn dal yn berthnasol? Y cyngor a rannwyd oedd y dylid addasu'r sesiwn DACW i anghenion y plentyn gan fod angen iddo fynychu o hyd.

Creodd a rhannodd CYSAG/CYS ddogfen yn rhoi canllawiau ar DACW ar gyfer ysgolion/lleoliadau ac yn cynnig polisi DACW generig i'w addasu gan ysgolion unigol i'w wneud yn addas ac yn berthnasol i'r ysgol/lleoliad unigol.

Mae GACCCD wedi cyflwyno sesiynau 'galw heibio' ynghylch DACW. Gall unigolion a grwpiau o ysgolion ym Mhen-y-bont archebu cyfarfodydd i gael cymorth pwrpasol ar gyfer DACW.

Gwnaed CYSAG/CYS ac ysgolion yn yr awdurdod lleol yn ymwybodol o ganllawiau ychwanegol ar gyfer DACW drwy ddysgu proffesiynol, ardaloedd cymunedol a rhwydweithiau GACCCD:

- [Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol](#) 2017
- Canllawiau [CCYSAGauC](#) ar dynnu disgyblion yn ôl o addoli ar y cyd, Hydref 2021
- Estyn, [Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol](#), 2013
- Adnodd GACCCD '[Gweithred ddyddiol o Addoli ar y Cyd \(DACW\): Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol](#)', 2024
- Adnodd GACCCD '[Dolenni i Adnoddau DACW](#)', 2024

3.1 Adroddiadau arolygu ysgolion

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i gefnogi ysgolion i gyflawni eu gofynion statudol ar gyfer DACW. Mae CYSAG/CYS wedi monitro adroddiadau arolygu Estyn ar gyfer argymhellion sy'n ymwneud â DACW ac ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (YMCD) ac mae'r awdurdod lleol yn dilyn unrhyw ofynion statudol nad ydynt wedi eu cyflawni drwy ofyn am gynllun gweithredu yr ysgol.

Mae CYSAG/CYS wedi parhau i hysbysu ysgolion am wybodaeth ac adnoddau priodol sy'n ymwneud â DACW. Mae GACCCD wedi llunio adnodd, sydd ar gael ar ei wefan, [Gweithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd \('DACW'\): Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol](#). Pan fo Estyn yn amlygu materion ynghylch DACW, mae'r awdurdod lleol yn gwneud gwaith dilynol arnynt.

3.2 Ceisiadau am benderfyniadau

Rhaid i addoli ar y cyd fod o gymeriad Cristnogol cyffredinol. Mae'r weithdrefn benderfynu yn caniatáu i'r gofynion hyn gael eu hatal mewn cysylltiad â rhai neu'r holl ddisgyblion/dysgwyr mewn ysgol pan fernir eu bod yn amhriodol. Ni chafwyd unrhyw geisiadau am benderfyniadau gan ysgolion yn awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2024-25.

3.3 Ymweliadau ag ysgolion

Mae CYSAG/CYS wedi mynegi bwriad i weld arfer sy'n gysylltiedig â DACW yn 2025-26.

Adran 4: CRYNODEB O FEYSYDD ERAILL

4.1 Cymdeithas CYSAG/CYSau Cymru (CCYSAGauC)

Mae CYSAG/CYS yn parhau i gefnogi gwaith CCYSAGauC ac mae'n cydnabod gwerth y corff wrth hybu AG, AC, CGM a DACW yn genedlaethol. Cynhaliwyd trafodaethau llawn yn CYSAG/CYS ar y materion a godwyd gan CCYSAGauC. Y Cadeirydd sy'n cynrychioli ALI Pen-y-bont ar Ogwr ar bwyllgor Gweithredol CCYSAGauC ac, ers haf 2024, mae'n Gadeirydd CCYSAGauC. Caniateir i CYSAG/SAC Pen-y-bont ar Ogwr anfon uchafswm o bedwar aelod i fynychu CCYSAGauC. Y rhain yw Cadeirydd CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr, yr Ymgynghorydd Cyswllt a dau aelod CYSAG/CYS arall. Rhannwyd manylion arolwg '[Prosiect Llais yr Athro/Athrawes: Addysg a Gwrio yn y Cwricwlwm i Gymru](#)' â CYSAG/CYS ac ysgolion/lleoliadau yn yr awdurdod lleol. Penodwyd cynghorydd CYSAG/CYS yn aelod o Bwyllgor Gweithredol CYSAGauC, a enwebwyd gan Ferthyr Tudful, yn dechrau ym mis Medi 2025.

Cynhaliodd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr gyfarfod y gwanwyn CCYSAGauC ar 6 Mawrth 2025, ar-lein. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg, Blynnyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc y croeso i CCYSAGauC ac adlewyrchodd ar bwysigrwydd a datblygiad CGM o fewn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr.

4.2 Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG)

Cynrychiolwyd CYSAG/CYS yn llawn ar PYCAG gan Gynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/AC/CGM a CYSAG/CYS. Mae CYSAG/CYS wedi cael gwybod am ddatblygiadau ledled Cymru ac mae wedi chwarae rôl hanfodol wrth lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar AG/CGM/AC. Mae PYCAG wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, ac ar ddatblygu canllawiau statudol ar CGM yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae CYSAG/CYS hefyd wedi cael gwybodaeth gan Estyn, a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â CGM. Penodwyd y cynghorydd CYSAG/CYS yn is-gadeirydd PYCAG yn nhymor yr haf 2025.

4.3 Hyfforddi Aelodau CYSAG/CYS

Yn rhan o hyfforddiant i aelodau, mae CYSAG/CYS wedi:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ym maes AG/AC/CGM a DACW drwy bapurau briffio, cyflwyniadau, trafodaethau a chynghor rheolaidd gan GACCCD

- gwahodd aelodau i gyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru (CCYSAGauC)
- sicrhau bod CYSAG/CYS yn cael ei gynrychioli yn CCYSAGauC a bod aelodau'n cael adborth rheolaidd
- annog aelodau newydd i wyllo [Gweminar i aelodau newydd CYSAG/CYS yng Nghymru CCYSAGauC](#) (cyfrinair ar gael gan Glerc CYSAG/CYS), wedi'i hwyluso gan Gynghorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer CGM/AG/AC, a Phartner Cwricwlwm y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) ar gyfer CGM
- rhannu sesiynau hyfforddi gweminar am ddim ar-lein, gyda [Chymdeithas Genedlaethol y Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol \(NASACRE\)](#)
- rhannu [llawlyfr CCYSAGauC i aelodau newydd](#) CYSAG/CYS.

4.4 Cynrychiolaeth leuenctid ar gyfer CGM, AG, AC a DACW

Mae CYSAG/CYS wedi archwilio posibiliadau sefydlu cynrychiolaeth ieuenctid drwy fforwm leuenctid trawsranbarthol. Mae CYSAG/CYS wedi bod yn gefnogol o'r prosiect ac mae wedi gweithio gyda chynghorwyr awdurdodau lleol a GACCCD i ystyried y ffordd orau o sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Sefydlwyd fforwm leuenctid ar gyfer CGM, AG, AC a DACW a chynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Gorffennaf 2024. Mae cyfarfodydd tymhorol wedi digwydd ers llwyddiant y cyfarfod peilot hwn, yn ystod 2024-2025. Cynrychiolir ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr ar y fforwm, ac mae dysgwyr o'r awdurdod lleol wedi cyfrannu eu safbwyntiau a'u profiadau o ran AG/AC/CGM/DACW. Mae adborth o fforwm Cynrychiolaeth leuenctid wedi'i rannu â CYSAG/SAC mewn cyfarfodydd. Mae Cadeirydd CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael gwahoddiad i gyfarfod hydref 2025 i 'gynnal' a chysylltu CYSAG/CYS â fforwm Cynrychiolaeth leuenctid wrth symud ymlaen.

ATODIAD 1: AELODAETH CYSAG/CYS PEN-Y-BONT AR OGWR 2024-25

Pwyllgor A – Enwadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol

Y Parchedig Ganon Edward Evans (Cadeirydd)	Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig Dr Phillip Manghan	Yr Eglwys Gatholig
Kenny Dykes	Eglwysi Efengylaidd Cysylltiol yng Nghymru
Craig Hopkins	Gweinidog Arweiniol y Tabernacl, Braclaw
Andy Chyba	Dyneiddiaeth
Swydd wag	Iddewiaeth
Suliman Hawas/ Zainab Abubakar (haf 2025)	Islam
Swydd wag	Bwdhaeth
Swydd wag	Sanatana Dharma/Hindŵ Dharma/Hindŵaeth
Swydd wag	Sikhi

Pwyllgor B – Cymdeithasau undebau athrawon

Ceris Matthews	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
Alice Parry	Yr Undeb Addysg Cenedlaethol
Lowri Florence	Undeb Cenedlaethol yr Athrawon
Cathryn Davies	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Mike Street	Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Ashley Howells	Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
Swydd wag	Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr
Swydd wag	Cymdeithas Athrawon AG

Pwyllgor C – Awdurdod Lleol

Y Cyngorydd Martin Hughes	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Elaine Winstanley (Is-gadeirydd)	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Jeff Tidelsley	Awdurdod Lleol
Y Cyngorydd Martyn Jones	Awdurdod Lleol

Swyddogion Awdurdodau Lleol

Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynnyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
Susan Roberts	Rheolwr Grŵp Cymorth Ysgolion
Neil Arbery	Grŵp Ysgolion – Swyddog Arweiniol Datblygu Strategol (Cynradd)
Sarah Humphreys	Grŵp Ysgolion – Swyddog Arweiniol Datblygu Strategol (Uwchradd)
Helen Shepherd	Clerc i CYSAG/CYS
Donna Graves	Cyngorydd Cyswllt GACCCD ar gyfer AG/AC/CGM a CYSAG/CYS

ATODIAD 2: Cofnod cyfarfodydd Pen-y-bont ar Ogwr a'r phrif eitemau ar yr agenda

Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2024 am 3:30pm

Lleoliad: Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont ar Ogwr, Ystafell Gynhadledd Lefel 2

1.	Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)
2.	CYSAG/CYS 2.1 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd (CYSAG/CYS) 2.2 Aelodaeth (CYSAG/CYS)
3.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf 02/07/2024 (CYSAG/CYS)
4.	Materion sy'n codi (CYSAG/CYS)
5.	Papur briffio (CYSAG/CYS)
6.	Adroddiad Blynnyddol CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr 2023-2024 (CYSAG/CYS)
7.	Adroddiadau Arolygu Estyn (CYSAG/CYS)
8.	Cymwysterau (CYSAG/CYS) 8.1 TGAU AC newydd (CYS) (gweler y papur briffio) 8.2 TGAU AC 2023-2024 (CYSAG) (gweler y papur briffio) 8.3 AC AS/A2 2023-2024 (CYSAG) (gweler y papur briffio) 8.4 Cymwysterau ehangach – AG/CGM statudol (CYSAG/CYS) (gweler y papur briffio) 8.5 Ymgeiswyr a chanlyniadau Astudiaethau Crefyddol TGAU/TAG – Pen-y-bont ar Ogwr/Cymru Gyfan
9.	CCYSAGauC (CYSAG/CYS) 9.1 Adroddiad ar Weithgareddau'r Gymdeithas 2024 9.2 Adroddiad Trysoryddion CCYSAGauC 2023-2024 9.3 Agenda Hydref 2024 9.4 Adnoddau Cynhadledd CCYSAGauC 2024 (gweler y papur briffio) 9.5 Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal cyfarfod CCYSAGauC Gwanwyn 2025
10.	Cynrychiolaeth Ieuenctid ar gyfer AG, CGM, AC a DACW (CYSAG/CYS)
11.	Canllawiau i Ysgolion ar Ymweliadau/Siaradwyr Gwadd (CYS)
12.	Canllawiau Pen-y-bont ar Ogwr ar Bolisi y Weithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd ar gyfer ysgolion (CYSAG/CYG)
13.	Deunyddiau Ategol ar gyfer y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer CGM

14.	Cwmpasu – Y Gymuned Leol (CYSAG/CYS)			
15.	Amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol (CYSAG/CYS)			
		Dyddiad y Cyfarfod	Lleoliad	Amser
	Gwanwyn 2025	I’w gadarnhau	Ysgol Uwchradd Brynteg?	3:30pm
	Haf 2025	I’w gadarnhau	I’w gadarnhau	3:30pm
	Hydref 2026	I’w gadarnhau	I’w gadarnhau	3.30pm
16.	Eitemau ar gyfer Agenda Gwanwyn 2025 (CYSAG/CYS)			
17.	Argymhellion i’r Awdurdod Lleol (CYSAG/CYS)			
18.	UFA (CYSAG/CYS)			

Dydd Mawrth 25 Mawrth 2025 am 3:30am

LLEOLIAD: Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont ar Ogwr, Ystafell Gynhadledd Lefel 2

1.	Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)
2.	Aelodaeth (CYSAG/CYS)
3.	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf 12/11/2024 (CYSAG/CYS)
4.	Materion sy'n codi (CYSAG/CYS)
5.	Papur briffio tymor y gwanwyn (CYSAG/CYS)
6.	Adroddiadau Arolygu Estyn (CYSAG/CYS)
7.	Cymwysterau (CYSAG/CYS) 7.1 TGAU AC newydd (CYS) (gweler y papur briffio; eitem 6.) 7.2 Cymwysterau ehangach – CGM statudol (CYS) (gweler y papur briffio; eitem 6.) 7.3 Arolwg ysgolion ar gyfer darpariaeth AG/CGM/AC ym mlynnyddoedd 10 ac 11 – drafft
8.	Marchnata CGM/AC o fewn ysgolion/lleoliadau

9.	CCYSAGauC (CYSAG/CYS) 9.1 Cyfarfod gwanwyn CCYSAGauC 6 Mawrth 2025, a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol 9.2 Cofnodion CCYSAGauC hydref 2024 9.3 Enwebai Pwyllgor Gweithredol CCYSAGauC 9.4 Arolwg Cynrychiolaeth Athrawon 9.5 Adroddiad Blynnyddol (ysgrifennu/strwythur/cynnwys) 9.6 Cod Ymddygiad (drafft)												
10.	Cynrychiolaeth leuenctid ar gyfer AG, CGM, AC a DACW (CYSAG/CYS)												
11.	Adnoddau CYSAG/CYS a mynediad i'r wefan 11.1 Canllawiau i ysgolion ar ymweliadau/siaradwyr gwadd (CYS) 11.2 Cynnal adnoddau CCD												
12.	Amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol: (CYSAG/CYS) <table><tr><td></td><td>Dyddiad</td><td>Lleoliad</td><td>Amser</td></tr><tr><td>Haf 2025</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td></tr><tr><td>Hydref 2025</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td></tr></table>		Dyddiad	Lleoliad	Amser	Haf 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	Hydref 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
	Dyddiad	Lleoliad	Amser										
Haf 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau										
Hydref 2025	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau										
13.	Awgrymiadau ar gyfer Agenda haf 2025 (CYSAG/CYS) Awgrymiadau/argymhellion i'r Awdurdod Lleol? (CYSAG/CYS) UFA (CYSAG/CYS)												

Dydd Mawrth 1 Gorffennaf 2025 3:30pm

LLEOLIAD: Swyddfeydd Dinesig Pen-y-bont ar Ogwr

1.	Croeso ac ymddiheuriadau (CYSAG/CYS)														
2.	CYSAG/CYS Diweddariad Aelodaeth														
3.	Cofnodion (CYSAG/CYS) Cofnodion 25 Mawrth, 2025														
4.	Materion sy'n codi (CYSAG/CYS)														
5.	Papur briffio tymor yr haf Pen-y-bont ar Ogwr (CYSAG/CYS)														
6.	Monitro CGM/AG/AC a DACW (CYSAG/CYS) Crynodebau Arolygiadau Estyn Pen-y-bont ar Ogwr (CYSAG/CYS)														
7.	Cymwysterau (CYSAG/CYS) 7.1 Gweler eitem 5. 7.2 Arolwg CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Blynnyddoedd 10/11														
8.	CCYSAGauC (CYSAG/CYS) 8.1 Cofnodion CCYSAGauC 6 Mawrth 2025 8.2 Enwebai Pwyllgor Gweithredol CCYSAGauC 8.3 Agenda CCYSAGauC 2 Gorffennaf 2025 a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol														
9.	Cynrychiolaeth leuenctid ar gyfer CGM/AG/AC a DACW (CYSAG/CYS) 9.1 Logo 9.2 Cyflwyno'r ennillydd 9.3 Clip fideo o dysgwr buddugol ar gyfer Cynrychiolaeth leuenctid, Ysgol Gynradd Malpas														
10.	CYSAG/CYS yn y Dyfodol 10.1 Cynllun Gweithredu Drafft Pen-y-bont ar Ogwr (CYSAG/CYS) 10.2 Adroddiad Blynnyddol Pen-y-bont ar Ogwr 2024-2025 a thu hwnt (CYSAG/CYS)														
11.	Amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol: (CYSAG/CYS) <table><tr><td></td><td>Dyddiad</td><td>Lleoliad</td><td>Amser</td></tr><tr><td>Hydref 2025</td><td>4 Tachwedd</td><td>Ystafell Gynhadledd Lefel 2 Dinesig</td><td>3:30pm</td></tr><tr><td>Gwanwyn 2026</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td><td></td></tr></table>				Dyddiad	Lleoliad	Amser	Hydref 2025	4 Tachwedd	Ystafell Gynhadledd Lefel 2 Dinesig	3:30pm	Gwanwyn 2026	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	
	Dyddiad	Lleoliad	Amser												
Hydref 2025	4 Tachwedd	Ystafell Gynhadledd Lefel 2 Dinesig	3:30pm												
Gwanwyn 2026	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau													

	Haf 2026	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau		
12.	Awgrymiadau eitemau agenda ar gyfer cyfarfod hydref 2025 (CYSAG/CYS)				
13.	Awgrymiadau/argymhellion i'r Awdurdod Lleol? (CYSAG/CYS)				
14.	UFA (CYSAG/CYS)				

ATODIAD 3: DOSBARTHU'R ADRODDIAD BLYNYDDOL

Bydd copïau o'r adroddiad blynyddol hwn yn cael eu hanfon yn electronig i'r cyrff perthnasol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan CCYSAGauC fel y gall partïon sydd â diddordeb ei lawrlwytho.

Rhestr o Sefydliadau y mae'r adroddiad hwn yn cael ei anfon iddynt

- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas CYSAGau/CYSau Cymru (CCYSAGauC)

Ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr er hygyrchedd cyhoeddus.

ATODIAD 4: Cylch Gorchwyl CYSAG/CYS PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS)

Diwygiwyd i gyd-fynd â gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru o flwyddyn ysgol 2022-2023 ymlaen.
(Cymeradwydd y Cabinet yr adroddiad ar 14 Mai 2024)

Sefydlir y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn unol ag adrannau 390-397 o Ddeddf Addysg 1996 a chanllawiau a gynhwysir yng Nghylchlythyr Cymru 10/94 fel y'i diweddarwyd. Hefyd, sefydlir y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (gweler Atodlen 1).

Cyfansoddiad

Cylch gorchwyl

1. Cyngori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n gysylltiedig ag addoli ar y cyd mewn ysgolion sirol.
2. Cyngori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol, neu grefydd, gwerthoedd a moeseg a roddir yn unol â'r maes llafur cytunedig.
3. Penderfynu pryd, o fewn y cyfnod amser statudol o bum mlynedd, y dylai'r awdurdod lleol adolygu ei faes llafur cytunedig.
4. Ystyried gyda'r awdurdod lleol a Chynhadledd y Maes Llafur Cytunedig unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r maes llafur cytunedig.
5. Ystyried, gyda'r awdurdod lleol, y cymorth a gynigir i addysg grefyddol a chrefydd, gwerthoedd a moeseg yn ei ysgolion, gan roi sylw penodol i ddulliau addysgu, y dewis o ddeunyddiau addysgu a'r hyfforddiant a ddarperir i athrawon.
6. Cynnig cyngor ar unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'i swyddogaeth fel y gwêl orau.
7. Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith, a ddylai wneud y canlynol:
 - nodi unrhyw faterion y mae wedi cyngori'r awdurdod lleol arnynt;
 - disgrifio natur y cyngor yn fras;
 - nodi ei resymau dros gynnig cyngor ar unrhyw faterion na chafodd eu cyfeirio ato yn y lle cyntaf gan yr awdurdod lleol;
 - cofnodi aelodaeth CYS/CYSAG a dyddiadau cyfarfodydd a gynhelir.
8. Cymryd rhan yng ngweithdrefnau cwynion statudol yr awdurdod lleol yn yr achosion hynny pan fo'r cwynion yn ymwneud ag addysg grefyddol neu grefydd, gwerthoedd a moeseg a/neu addoli ar y cyd.

9. Derbyn a gwneud penderfyniadau mewn cysylltiad â cheisiadau gan benaethiaid ysgolion sirol i godi neu addasu'r gofynion bod yn rhaid i addoli ar y cyd mewn ysgolion o'r fath fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol cyffredinol.

Cyfansoddiad

10. Bydd y cyngor yn cynnwys tri grŵp sy'n cynrychioli:
- unrhyw enwadau Cristnogol a chrefyddol eraill a fydd, ym marn yr awdurdod lleol, yn adlewyrchu'n briodol y traddodiadau crefyddol yn yr ardal a hefyd unrhyw unigolion sy'n cynrychioli deiliaid credoau anghrefyddol yn yr un ffordd ag y maent yn caniatáu penodiad unigolion sy'n cynrychioli deiliaid credoau crefyddol; (adran 390(4)(a), a pharagraff 4(2)(1) o Atodlen 31 i Ddeddf 1996 ac yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021);
 - unrhyw gymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon a ddylai, ym marn yr awdurdod lleol, gael eu cynrychioli o ystyried amgylchiadau'r ardal;
 - yr awdurdod lleol.
11. Caiff y Cyngor gyfethol aelodau hefyd.
12. Bydd aelodaeth o'r Cyngor am gyfnod o bedair blynedd. Ceir ailbenodi unrhyw aelodau sy'n ymadael.
13. Mae aelodaeth o'r Cyngor ar sail yr amod bod yr awdurdod lleol wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei hun bod yr unigolion a benodir yn gynrychioliadol o'r enwadau, y sefydliadau neu'r cymdeithasau dan sylw.
14. Mae'n rhaid i aelodau sy'n cynrychioli cymdeithasau athrawon gynnwys athrawon addysg grefyddol a/neu grefydd, gwerthoedd a moeseg.
15. Ceir tynnu unigolion oddi ar y Cyngor os nad ydynt yn cynrychioli'r enwad, y sefydliadau, y gymdeithas neu'r awdurdod y cawsant eu penodi i'w cynrychioli mwyach.
16. Caiff unrhyw aelod o'r Cyngor ymddiswyddo ar unrhyw adeg.
17. Ni fydd unrhyw aelod sy'n absennol o dri chyfarfod yn olynol heb ymddiheuriad yn aelod mwyach. Ni fydd unigolyn sy'n cael ei anghymwyso fel hyn yn cael ei atal rhag cael ei ailbenodi gan y corff enwebu priodol.

Trafodion

18. Bydd yr awdurdod lleol yn penodi clerc i CYSAG/CYS.
19. Mae'r Cyngor yn cyfarfod o leiaf unwaith yn ystod pob tymor ysgol.
20. Bydd y Cyngor yn ethol cadeirydd ac is-gadeirydd o blith ei aelodaeth yn y cyfarfod cyntaf ym mhob blwyddyn ysgol. Ni fydd y cadeirydd a'r is-gadeirydd, yn ystod unrhyw flwyddyn unigol, yn dod o'r un grŵp cynrychioliadol. Ceir ailbenodi cadeirydd sy'n ymadael.

21. Os bydd y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd unigolyn i fod yn gadeirydd ar gyfer y cyfarfod yn cael ei benodi ar sail cydsyniad cyfunol yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod. Os bydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn cyrraedd yn ystod gweddill y cyfarfod, bydd y dirprwy a benodwyd yn trosglwyddo iddo cyn gynted ag y bydd yr eitem sy'n cael ei thrafod pan fydd yn cyrraedd wedi ei chwblhau.
22. O ran unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y Cyngor, dim ond y grwpiau cynrychioliadol ar y Cyngor fydd â hawl i bleidleisio, a bydd gan bob grŵp un bleidlais. Cyn i bleidlais ffurfiol gael ei chynnal, rhoddir cyfle i bob grŵp cynrychioliadol benderfynu sut y bydd ei bleidlais yn cael ei bwrw.
23. Nid oes gan aelodau cyfetholedig hawl i bleidleisio.
24. Bydd yr agenda ar gyfer pob cyfarfod yn cael ei gosod gan y cadeirydd a'r is-gadeirydd mewn ymgynghoriad â'r cynghorydd i CYS/CYSAG, y clerc i CYS/CYSAG, a Swyddog Proffesiynol yr Awdurdod Lleol. Bydd gan unrhyw aelod sydd â phleidlais ar CYS/CYSAG hawl i gynnig eitemau ar gyfer agenda.
25. Caiff CYSAG/CYS, os yw'n dymuno, drefnu i siaradwr arbenigol nad yw'n aelod o CYSAG/CYS fod yn bresennol mewn cyfarfod.
26. Caiff pob un neu unrhyw un o'r grwpiau cynrychioliadol wneud presenoldeb siaradwr arbenigol nad yw'n aelod o CYSAG/CYS yn ofynnol, ond dim ond yn ystod y cyfnod pan fo unrhyw fater perthnasol yn cael ei ystyried a chyn belled ag y rhoddir rhybudd o 10 diwrnod gwaith o leiaf o ofyniad o'r fath i'r clerc ei gynnwys yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod.
27. Yn achos unrhyw aelod nad yw'n gallu mynd i gyfarfod y Cyngor, caiff y corff y mae'r unigolyn hwnnw'n ei gynrychioli enwebu dirprwy, ar yr amod bod y dirprwy yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a bod y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn cael ei hysbysu cyn y cyfarfod.
28. Ystyrir bod cworwm mewn cyfarfod Cyngor os bydd o leiaf un aelod o bob un o'r tri grŵp cynrychioliadol yn bresennol.
29. Ni effeithir ar ddilysrwydd trafodion y Cyngor:
 - gan swydd wag unrhyw aelod o'r Cyngor; neu
 - ar y sail nad yw aelod o'r Cyngor a benodir i gynrychioli unrhyw enwad neu gymdeithas, ar adeg y trafodion, yn cynrychioli'r enwad, y sefydliad neu'r gymdeithas dan sylw.
30. Caiff y grwpiau cynrychioliadol ar y Cyngor, ac eithrio'r un sy'n cynrychioli'r awdurdod lleol, alw, ar unrhyw adeg, am adolygiad o faes llafur cytunedig cyfredol yr awdurdod lleol. Ar adeg o'r fath, bydd Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig yn cael ei threfnu a'i chynnull.
31. Bydd y Cyngor yn ystyried ei adroddiad blynyddol yn y cyfarfod cyntaf a gynhelir ym mhob blwyddyn academiaidd. Ar ôl i'r Cyngor gadarnhau'r adroddiad, bydd yn mynd rhagddo i'w gyhoeddi.

32. Bydd y clerc i CYS/CYSAG yn trefnu i gopïau o'r adroddiad blynyddol gael eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol, eu hanfon i bob ysgol yn yr awdurdod lleol, i Lywodraeth Cymru, ac at unigolion a sefydliadau eraill o'r fath y mae'r awdurdod lleol yn ei ystyried yn briodol.

ATODIAD 1

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CYS)

Bydd cyfansoddiad, swyddogaethau a threfniadau gweithio CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn dilyn rhai CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr, fel y nodir uchod. Bydd y ddau bwyllgor yn cyd-fodoli tan 2025 ac i sicrhau effeithlonrwydd ac uniondeb y ddau bwyllgor, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar yr un pryd, â'r holl fusnes yn cael ei drin fel y bo'n briodol i bob pwyllgor.

Bydd y trefniadau hyn yn parhau tan fod y Cwricwlwm i Gymru wedi ei weithredu i bob grŵp blwyddyn perthnasol, ac yna bydd CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ddiddymu a bydd CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau.

ATODIAD 5: ADNODDAU A CHYFLEOEDD DYSGU PROFFESIYNOL

Mae GACCCD wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol i bob ymarferydd yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar rannu arferion a grymuso athrawon. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi gwybodaeth am agweddau ar gynnis dysgu proffesiynol GACCCD sy'n berthnasol i AG/CGM/DACW. Mae'r rhain wedi bod ar gael i ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

Adnoddau dysgu proffesiynol a gynhyrchwyd gan GACCCD:

- Mae [Ardal Gymunedol Dyniaethau Cynradd GACCCD](#) yn rhannu amrywiaeth o gyhoeddiadau a ffeiliau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru
- Mae [Ardal Gymunedol Dyniaethau Uwchradd: Ardal Gymunedol CGM](#) yn rhannu amrywiaeth o gyhoeddiadau a ffeiliau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm i Gymru, AG ac AC
- Mae [Cronfa Wybodaeth GACCCD](#) yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau CGM ar gyfer ymarferwyr
- [Ymholi a Dehongli yn y Dyniaethau](#). Mae adnodd rhestr chwarae newydd bellach ar gael yma i gefnogi ymarferwyr i ddeall a datblygu sgiliau ymholi a dehongli yn y dyniaethau, gyda thudalennau penodol ar gyfer CGM yn ogystal â'r pedwar pwnc arall yn y dyniaethau
- [Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg: Bodloni'r gofynion deddfwriaethol](#)
- [Gweithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd \(DACW\): Bodloni'r Gofynion Deddfwriaethol](#)
- [CGM a Philosophy 4 Children \('P4C'\)](#) – adnoddau newydd astudiaethau achos prosiect a ariennir
- Prosiect 'CGM Gwrthrychol, Beirniadol a Phlwrailaethol' a ariennir, ynghyd â'r Eglwys yng Nghymru, adnodd newydd astudiaethau achos – [dolen](#)
- [CGM a Gwyddoniaeth](#) – astudiaethau achos prosiect a ariennir
- [Astudiaethau achos CGM](#)
- Adnoddau CGM, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth – [cynradd](#); [uwchradd](#)
- Mapio a dilyniant mewn CGM – [cynradd](#); [uwchradd](#)
- Addysgu Materion Heriol a Sensitif – [cynradd](#); [uwchradd](#)
- Dyniaethau Digidol – Astudiaethau Achos GACCCD ar gyfer y prosiect a ariennir – [dolen](#)
- Poster cwrwclwm CGM i ymarferwyr, yr uwch-dîm arwain a llywodraethwyr:
 - [CGM: Beth Sydd Wedi newid?](#)
 - [CGM: Beth Sydd HEB Newid?](#)
 - [CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.](#)

Rhaglenni a digwyddiadau dysgu proffesiynol GACCCD:

- Arweinyddiaeth Effeithiol Meysydd Dysgu a Phrofiad a Phynciau - dydd Gwener 8 Tachwedd diwrnod 1 (gorfodol i bob mynychwr) a dydd Iau 21 Tachwedd 2024 ar gyfer arweinwyr y Dyniaethau, gan gynnwys arweinwyr CGM.
- Dylunio'r cwricwlwm yn y Dyniaethau - dydd Mawrth 24 Medi 2024 (cynradd), dydd Mawrth 12 Tachwedd 2024 (uwchradd) a dydd Mercher 22 Ionawr 2025 (cynradd).
- Amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn y Dyniaethau - diwrnod cyfan, yn bersonol, dydd Iau 19 Medi 2024
- Addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn y Dyniaethau - diwrnod cyfan, yn bersonol, dydd Mercher 6 Tachwedd 2024
- Archwilio ymholiad athronyddol mewn CGM (P4C) - diwrnod cyfan, yn bersonol, dydd Mercher 9 Hydref 2024
- Dylunio'r cwricwlwm yn y Dyniaethau - diwrnod cyfan, wyneb yn wyneb, dydd Mercher 22 Ionawr 2025 (cynradd)
- Amrywiaeth a gwrth-hiliaeth yn y Dyniaethau - diwrnod cyfan, yn bersonol, dydd Mercher 8 Ionawr 2025
- CGM Dilys, Pwrpasol ac Ymgysylltiol - diwrnod cyfan, yn bersonol, 4 Chwefror 2025 (cynradd)
- Deall argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol; gweminar ar-lein awr o hyd ar deimladaeth drwy TEAMS, 3:30pm-4:30pm (pob ymarferydd CGM/AG/AC)
- Mynd i'r Afael ag Islamoffobia – gweminar Rhwydwaith Rhanbarthol BAMEed, awr ar TEAMS, dydd Mawrth 11 Mawrth 2025, 3:00pm-4:00pm
- Dylunio Cwricwlwm y Dyniaethau Cynradd – Ffocws 'CGM' – 21 Mai 2025, 9:00am-3:00pm, yn bersonol.

Roedd sesiynau briffio GACCCD drwy TEAMS yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am CGM/AC/AG

- CGM: Sesiynau briffio i athrawon ac arweinwyr tymor y gwanwyn 2025 - Dydd Iau, 13 Chwefror 2025 3:00pm – 3:45pm.

Cyfarfodydd rhwydweithiau GACCCD

- Rhwydwaith y Dyniaethau Cynradd – tymor yr hydref Dydd Mercher, 23 Hydref 2024 3:00pm - 4:30pm, ar-lein
- Rhwydwaith y Dyniaethau Cynradd – tymor y gwanwyn dydd Mercher, 29 Ionawr 2025 3:00pm - 4:30pm, ar-lein
- Rhwydwaith CGM, AG ac AC uwchradd – Tymor yr Hydref Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2024 3:00pm - 4:30pm, ar-lein
- Rhwydwaith CGM, AG ac AC uwchradd – Tymor y Gwanwyn Dydd Mawrth 4 Mawrth 2025 3:00pm – 4:00pm, ar-lein

- Rhwydwaith Astudiaethau Crefyddol TGAU – Tymor yr Haf Dydd Llun, 23 Mehefin 2025 9:00am - 3:00pm, yn bersonol yng Nghanolfan Arloesi'r Cymoedd, Abercynon
- Rhwydwaith y Dyniaethau ar gyfer ysgolion arbennig/Unedau Cyfeirio Disgyblion – Tymor yr Hydref Dydd Iau, 26 Medi 2024 3:00pm - 4:30pm, ar-lein
- Rhwydwaith y Dyniaethau ar gyfer ysgolion arbennig/Unedau Cyfeirio Disgyblion – Tymor y Gwanwyn Dydd Mercher, 12 Chwefror 2025 3:00pm - 4:30pm, ar-lein.

Sesiynau galw heibio GACCCD yn cynnig slot y gellir ei drefnu i drafod cwricwlwm CGM/dyniaethau ysgolion unigol

- Sesiynau galw heibio'r Dyniaethau (gan gynnwys CGM) - 25 Tachwedd 2024, 11 Rhagfyr 2024, 13 Ionawr 2025 a 10 Mawrth 2025.
- Sesiynau Galw Heibio DACW – 11 Chwefror 2025.

Prosiectau dysgu proffesiynol (DP) a ariennir gan GACCCD

Y prosiect a ariennir gan y dyniaethau/CGM ar gyfer 2024-2025 (blwyddyn ariannol) yw 'Addysgu a Dysgu yn y Dyniaethau'. Mae chwe ysgol ar draws y rhanbarth wedi cymryd rhan, un ysgol uwchradd o Ben-y-bont ar Ogwr.

GACCCD yn rhannu adnoddau a deunyddiau dysgu proffesiynol

- Maes Llafur Cytunedig Pen-y-bont ar Ogwr a deunyddiau ategol
- Dysgu proffesiynol Hwb ar CGM
 - [Modiwl un: Blynyddoedd cynnar](#)
 - [Modiwl dau: Cynradd](#)
 - [Modiwl tri: Uwchradd](#)
 - [Modiwl pedwar: Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\)](#)
 - [Modiwl pump: Penaethiaid](#)
 - [Modiwl chwech: Llywodraethwyr](#)
- [Teimladaeth – barn y byd](#)
- [Gwefan yr Eglwys yng Nghymru](#)
- [Gwasanaeth Addysg Gatholig – Cymru](#)
- [Cylchgrawn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch 'am ddim'](#)
- [Adnoddau am ddim Canolfan San Giles ar gyfer AG/CGM/AC](#)
- Canolfan Ddiwylliannol Iddewig Cymru – Dolen '[addysg](#)' Merthyr Tydfil
- [Credoau crefydd/barn y byd Pen-y-bont ar Ogwr Data Cyfrifiad 2021](#)
- [Ysgol Gynradd Creigiau, Caerdydd: Dylunio ein cwricwlwm CGM](#)

- Gwybodaeth, adnoddau a gweminarau Diwrnod Cofio'r Holocaust; [Diwrnod Cofio'r Holocaust](#) – 27 Ionawr 2025
 - Cylchlythyrau, gwybodaeth ac adnoddau CBAC
 - Deunyddiau o [gynhadledd CCYSAGauC 2024](#), gan gynnwys seminarau ar-lein
 - [Cynhadledd CCYSAGauC 2024 – Recordiadau Ar Gais](#)
1. [Lleisiau'r gynhadledd: Cynhadledd Genedlaethol CGM CCYSAGauC, 13 Mehefin 2024](#)
Mae cynrychiolwyr yn rhannu eu profiadau yng Nghynhadledd Genedlaethol CGM CCYSAGauC ym Mhrifysgol Wrecsam ar 13 Mehefin 2024.
 2. [Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle, \(Cynhadledd Genedlaethol CGM CCYSAGauC, 13 Mehefin 2024\)](#) Mae Lynne Neagle MS yn siarad yng Nghynhadledd Genedlaethol CGM CCYSAGauC, 13 Mehefin 2024, Prifysgol Wrecsam.
 3. [Ffilm Diwrnod y Gynhadledd: Cynhadledd Genedlaethol CGM CCYSAGauC, 13 Mehefin 2024](#)
Recordiadau o Gynhadledd Genedlaethol CGM CCYSAGauC ar 13 Mehefin 2024 ym Mhrifysgol Wrecsam
 4. [Yr Athro Graham Donaldson – 'Y Gwerthoedd Gorfodol' ac arwyddocâd CGM yn y Cwricwlwm i Gymru](#) Yng Nghynhadledd Genedlaethol CGM CCYSAGauC (13 Mehefin 2024), mae'r Athro Graham Donaldson yn siarad am yr heriau sy'n wynebu addysg a phobl ifanc heddiw, a pham mae'r Cwricwlwm i Gymru a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) mor bwysig.
 5. [Esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Mary Stallard – Arwyddocâd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg \(CGM\) i bobl ifanc yng Nghymru](#) Yng Nghynhadledd Genedlaethol CGM CCYSAGauC (13 Mehefin 2024), mae'r Gwir Barchedig Mary Stallard, Esgob Llandaf yn siarad am arwyddocâd CGM i bobl ifanc yng Nghymru.
 6. [Ffilm newydd a grëwyd yn arbennig ar gyfer CCYSAGauC gan gynyrchiadau Fresh Gecko, ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.](#) Mae'r ffilm fer hon yn hyrwyddo gwerth CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, ac mae wedi'i hanelu at bobl ifanc, ysgolion a lleoliadau, rhieni/gwarcheidwaid, ac eraill sydd â diddordeb mewn CGM.
- [Adnoddau a chynghor CCYSAGauC ar gyfer AG, CGM, AC a DACW](#)
 - Adnoddau addysgu a dysgu am ddim gan [NATRE](#)
 - Adnoddau a gwybodaeth ar [Hwb](#)
 - Rhaglenni dysgu proffesiynol Llywodraeth Cymru, podlediadau ac [e-gylchgrawn CGM](#)
 - Adnoddau [cronfa wybodaeth a phosteri CCYSAGauC](#) ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg, y dyniaethau a'r Cwricwlwm i Gymru e.e. cynnydd yn y dyniaethau, mapiau cynnydd yn y dyniaethau a pholisi enghreifftiol y cwricwlwm

- Deunyddiau [Estyn](#) e.e. adroddiad thematig Estyn – dulliau effeithiol o asesu sy'n gwella addysgu a dysgu
- Rhannwyd manylion '[Prosiect Gwersi o Auschwitz](#)' ag ysgolion
- Gwybodaeth am [Ganolfan Treftadaeth Iddewig Cymru](#) ym Merthyr Tudful
- Adnoddau addysgu Humanism UK – [Deall y Dyniaethau](#)
- Cyfleoedd ac adnoddau dysgu proffesiynol [DARPL](#)
- Podlediadau
- Canfod Mwslimiaid ym Mhrydain – adnoddau e.e. Adnodd prosiect '[Ask a Muslim](#)' a '[Stori Islam yng Nghymru](#)' o'r Ganolfan ar gyfer Astudio Islam yn y DU (Prifysgol Caerdydd)
- Adnodd '[History of Religion in Wales](#)'
- Adnoddau a dolen gwefan [Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru](#) i gefnogi CGM
- [Wythnos Rhyng-ffydd/Rhyng-grefyddol](#) – 10 – 17 Tachwedd 2024
- Adnoddau'r Holocaust yng Nghymru - mae'r holl adnoddau gwreiddiol wedi'u diwygio i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac maent bellach ar gael ar-lein ar [Casgliad y Werin Bobl](#) a'r Hwb, gan Gymdeithas Hanes Iddewig De Cymru
- <https://understandinghumanism.org.uk> – gwefan ymarferwyr ar Ddyneiddiaeth yn y DU. Mae llawer o adnoddau bellach wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

Adnoddau GACCCD ar gyfer y weithred ddyddiol o addoli ar y cyd (DACW)

- [Gweithred Ddyddiol o Addoli ar y Cyd \('DACW'\) Bodloni'r Gofynion Deddfwriaetho](#)

Adnoddau CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y weithred ddyddiol o addoli ar y cyd (DACW)

- Gweithred Dyddiol o Addoli ar y Cyd – Canllawiau a Pholisi Enghreifftiol CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr.

Adnoddau cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan GACCCD

- Datblygwyd [Rubrics sgiliau trawsgwricwlaidd a Chymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg](#) mewn cydweithrediad ag ysgolion yn y rhanbarth i gefnogi hunanarfarnu a chynllunio gwelliant mewn lleoliadau prif ffrwd ar gyfer y meysydd pwysig hyn. Dyma'r dolenni:
 - [Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Ysgolion gyda Sgiliau - Llythrennedd](#)
 - [Rubrics to Support Self-Evaluation and School Improvement in Skills - Welsh in English Medium Primary Schools](#)

- Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Ysgolion gyda Sgiliau - Cymraeg Mewn Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg
- Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Ysgolion gyda Sgiliau - Rhifedd
- Rubrics i Gefnogi Hunanwerthuso a Gwella Ysgolion gyda Sgiliau - Cymhwysedd Digidol.